# Cynllunio a gweithredu deiet addas ar gyfer ceffylau

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â chynllunio a gweithredu deiet addas ar gyfer ceffylau.

Bydd angen i chi ddeall effeithiau grwpiau gwahanol o faethynnau ar gorff y ceffyl, a nodi sut y gellir rhoi'r rhain i geffylau ag anghenion gwahanol. Mae hyn yn cynnwys cymharu cynnwys maeth bwydydd a ffurfio dognau ar gyfer ceffylau ar lefelau gwaith amrywiol, cyfnodau gwahanol bywyd a chydag anghenion maeth penodol.  Bydd angen i chi allu adnabod problemau deietegol cyffredin a welir mewn ceffylau sydd yn arwain at faeth gwael neu ddeiet anghytbwys.  Mae gweithredu cyfundrefnau bwydo diogel ac effeithiol hefyd yn cael ei ymgorffori.

Bydd angen i chi fod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd iechyd, diogelwch a lles anifeiliaid mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn.

Bydd angen i chi sicrhau eich diogelwch eich hun ac eraill, a lles y ceffylau, yr holl amser.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. asesu anghenion maeth y ceffylau yn eich gofal gan ystyried eu cyfnod mewn bywyd, lefelau gwaith ac unrhyw ofynion penodol
2. cynllunio deiet addas a chreu cynlluniau bwydo ar gyfer ceffylau, sy'n darparu'r maeth gofynnol
3. gwerthuso, dethol a darparu bwydydd addas o ran maeth er mwyn bodloni gofynion y cynlluniau bwydo
4. gweithredu a monitro gweithdrefnau ar gyfer storio a chylchdroi stociau o fwydydd
5. sicrhau bod y cyfleusterau, cyflenwadau, offer ac unrhyw adnoddau eraill sydd yn ofynnol i weithredu'r cynlluniau bwydo ar gael
6. cyfathrebu'n effeithiol gyda'r rheiny sydd yn gysylltiedig â gweithredu cynlluniau bwydo
7. monitro'r gwaith o weithredu'r cynlluniau bwydo ac adolygu a diwygio dognau mewn ymateb i iechyd, lles a pherfformiad y ceffyl
8. adnabod arwyddion o ddeiet anghytbwys
9. dethol a gweithredu mesurau hylendid a bioddiogelwch priodol a sicrhau eu bod yn cael eu cynnal
10. sicrhau bod gwastraff yn cael ei waredu'n ddiogel ac yn gywir
11. sefydlu a chynnal cofnodion deietegol a maeth
12. asesu peryglon a rheoli'r risg i geffylau, i chi eich hun ac eraill mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. swyddogaeth grwpiau maeth yn cynnwys carbohydradau, ffibr, protein, braster, fitaminau, mwynau (mwynau macro a micro) a dwr
2. y gofynion ar gyfer grwpiau maeth gwahanol gan geffylau o oedrannau, mathau, lefelau a mathau o waith gwahanol yn cynnwys magu, a'r rheiny â gofynion deietegol arbennig
3. pwysigrwydd rhoi sgôr i gorff ceffyl a sut i wneud hyn.
4. sut i bwyso ceffyl gan ddefnyddio fformiwla wyddonol, tâp pwysau a phont bwyso
5. yr ystod o ffactorau y mae'n rhaid rhoi cyfrif amdanynt wrth ffurfio dogn deietegol
6. sut i ffurfio dogn ar gyfer ceffylau yn ystod cyfnodau gwahanol bywyd, ar gyfer mathau gwahanol o geffylau, ar gyfer ceffylau sydd ar lefelau a mathau gwahanol o waith yn cynnwys magu, ac ar gyfer y rheiny ag anghenion deietegol penodol
7. y bwydydd gwahanol sydd ar gael ar gyfer ceffylau, eu cynnwys maethegol, a'r rheiny a ganiateir yn unol â rheoliadau cyrff llywodraethu cystadleuol
8. y defnydd a'r mathau o gydbwyswyr bwyd masnachol, atchwanegiadau ac ychwanegion sydd ar gael i geffylau, y meintiau sydd eu hangen, buddion a'r effeithiau niweidiol os cânt eu bwydo'n anghywir
9. pwysigrwydd sefydlu a chadw cofnodion deietegol a maeth
10. pwysigrwydd adolygu a diwygio dognau ar gyfer ceffylau er mwyn sicrhau bod eu hamcanion yn cael eu bodloni'n barhaus
11. arwyddion deiet anghytbwys yn cynnwys ceffylau sydd dros bwysau ac o dan bwysau ac yn profi amodau ffisiolegol a metabolaidd sydd yn gysylltiedig â deiet anghytbwys
12. achosion ac ataliaeth ystod o gyflyrau ffisiolegol a metabolaidd sydd yn gysylltiedig â deiet anghytbwys
13. sut i newid dognau bwydo ar gyfer ceffylau mewn adwaith i anghenion deietegol newidiol fel newid mewn baich gwaith, newidiadau mewn ymddygiad, newid mewn cyflwr neu glefyd
14. pwysigrwydd cyfathrebu'n glir gyda'r rheiny sydd yn gysylltiedig â gweithredu cynlluniau bwydo.
15. pwysigrwydd storio bwyd ceffylau yn gywir, mesurau hylendid a bioddiogelwch mewn perthynas â bwydo ceffylau a sut y gellir cyflawni hyn
16. sut y dylid gwaredu mathau gwahanol o wastraff
17. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer iechyd a lles

anifeiliaid ac iechyd a diogelwch perthnasol

## Cwmpas/Ystod

Cyfrifo dognau ar gyfer ceffylau:

- cyflwyno iechyd, cyflwr a phwysau'r ceffyl
- math o geffyl, oed a thaldra
- maint a math o waith a wneir (yn cynnwys ceffylau sy'n cael eu cadw ar gyfer magu)
- natur y ceffyl
- y gyfundrefn reoli lle caiff y ceffyl ei gadw
- math o iard a rheolaeth (gallai hyn effeithio ar y bwydydd sy'n cael eu prynu, economeg, storio ac ymdrin â bwyd)

## Geirfa

Cyflyrau ffisiolegol a metabolaidd sy'n gysylltiedig â deiet:

- tanfwydo
- gorfwyd
- laminitis
- colig
- azoturia
- anaemia
- dolur rhydd
- dadhydradu
- colli electrolytau
- tagu
- problemau anadlol

Cynllunio a gweithredu deiet addas ar gyfer ceffylau

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEq416 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Rheolwr Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Ceffylau |
| **Geiriau Allweddol** | ceffylau; ceffyl; deiet; dognau |